Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 16.07.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Fframweithiau medrau trawsgwricwlaidd** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| At ei gilydd, mae'r arweiniad hwn wedi cryfhau'r camau ABC ar gyfer dysgu a'u heffeithiolrwydd o fewn datblygiad medrau trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r camau'n dangos dilyniant ar hyd continwwm ac maent yn gyson a chywir. Mae ychwanegu llwybrau allweddol ar gyfer cerrig milltir dysgu yn fuddiol o ran cynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio'r arweiniad hwn.<br><br>Teimlwn fod lle i gryfhau dealltwriaeth yr holl ddarllenwyr o'r ddogfen hon ymhellach trwy ychwanegu geirfa termau allweddol ac enghreifftiau pellach a ddarperir ar gyfer pob un o'r camau ABC. Credwn fod hyn yn hynod bwysig lle nad yw'r iaith a ddefnyddir efallai'n hawdd i'w deall gan y rhai nad ydynt yn gweithio yn y sector hwn, er enghraifft rhieni a gofalwyr neu oedolion eraill sy'n cynorthwyo plant trwy gamau datblygu ABC. Hefyd, gellid cryfhau'r arweiniad hwn trwy ychwanegu arweiniad atodol yn rhannu enghreifftiau ymarferol o'r modd y gall ymarferwyr ddefnyddio camau ABC i gefnogi dilyniant medrau trawsgwricwlaidd. Yn olaf, mae lle i wella o ran cyfeiriadau at y Gymraeg a'i diwylliant o fewn y dogfennau hyn. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1 –** Ydych chi'n gweithio ym myd addysg, neu'n cefnogi cyflwyno addysg?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

(i) Os ydw, beth yw eich sefydliad? (Os na, parhewch i iii isod)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (cynradd) | ☐ | Sefydliad addysg uwch | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (uwchradd) | ☐ | Awdurdod esgobaethol | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (arbennig) | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (cynradd) | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (uwchradd) | ☐ | Darparwr hyfforddiant preifat | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (arbennig) | ☐ | Trydydd sector | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol ddwyieithog (cynradd) | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Ysgol ddwyieithog (uwchradd) | ☐ | Dysgu oedolion yn y gymuned | ☐ |
| Ysgol ganol cyfrwng Cymraeg | ☐ | Sefydliad dyfarnu | ☐ |
| Ysgol ganol cyfrwng Saesneg | ☐ | Undeb athrawon | ☐ |
| Uned cyfeirio disgyblion (UCD) | ☐ | Corff rheoleiddio (yn cynnwys Arolygiaeth) **Estyn** | ✓ |
| Ysgol arbennig | ☐ | Corff llywodraethol | ☐ |
| Lleoliad a ariennir nas cynhelir | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Coleg addysg bellach | ☐ | | |

(ii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth | ☐ | Canghellor / is-ganghellor | ☐ |
| Athro | ☐ | Darlithydd | ☐ |
| Ymarferwr | ☐ | Arloeswr | ☐ |
| Athro newydd gymhwyso | ☐ | Llywodraethwr | ☐ |
| Cynorthwyydd addysgu | ☐ | Ymgynghorydd her | ☐ |
| Uwch arweinydd | ☐ | Swyddog gwella ysgolion | ☐ |
| Athro cyflenwi | ☐ | Arolygydd | ✓ |
| Pennaeth / is-bennaeth | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Athro ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar (neu gyfwerth) | ☐ | | |

(iii) Os nad ydych chi'n gweithio ym myd addysg, neu'n cefnogi cyflwyno addysg, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant neu ofalwr | ☐ | Cyflogwr | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedolyn dros 18 oed (nid rhiant na gofalwr) | ☐ | Prentis | ☐ |
| Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed) | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Myfyriwr / academydd | ☐ | | ☐ |

(iv) Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

(v) Os 'ydw', nodwch.

| **Estyn** |
|---|

**Cwestiwn 2** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau i'r Camau ABC yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol?

| **Anghytuno'n gryf** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Cytuno** | ✓ | **Cytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Os nad ydych yn cytuno â'r newidiadau, esboniwch pam:**

| **Dd/b** |
|---|

**Cwestiwn 3** – Mae'r Fframweithiau'n cynnwys y cerrig milltir allweddol Llwybrau ar gyfer Dysgu. Y bwriad yw rhoi dealltwriaeth i ymarferwyr o ddysgu blaenorol sy'n rhagofyniad. A yw hyn yn fuddiol?

| **Eithriadol o fuddiol** | ✓ | **Buddiol iawn** | ☐ | **Gweddol fuddiol** | ☐ | **Ychydig yn fuddiol** | ☐ | **Ddim yn fuddiol o gwbl** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb:**

| |
|---|
| Gallai cynnwys y cerrig milltir allweddol Llwybrau ar gyfer Dysgu yn y dogfennau Camau ABC ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn eithriadol o fuddiol ar gyfer cynorthwyo ymarferwyr â deall y dysgu gofynnol sy'n rhagofyniad ar gyfer dysgwyr. Gallai ychwanegu'r wybodaeth hon gynorthwyo ymarferwyr i nodi unrhyw fylchau mewn dysgu a allai rwystro datblygiad y medrau hyn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ymarferwyr dargedu meysydd medrau y mae angen eu datblygu ymhellach. Hefyd, mae ychwanegu'r cerrig milltir allweddol Llwybrau ar gyfer Dysgu yn cefnogi dealltwriaeth o gynnydd fel continwwm ac yn cefnogi'r camau cynnydd bach cyson y dylai dysgwyr eu gwneud. |

**Cwestiwn 4** – A yw'r Camau ABC diwygiedig yn cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio ar gyfer dilyniant dysgu a phersonoleiddio rhwng camau?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb:**

| |
|---|
| Mae'r Camau ABC yn rhoi fframwaith i ymarferwyr i fonitro datblygiad dysgwyr. Mae'r camau hyn yn eang, yn dangos dysgu fel continwwm, gan ganiatáu cyfle ar gyfer cynllunio amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynnydd rhwng camau. Nid yw'r camau yn rhagnodol, maent yn rhoi rhyddid i ymarferwyr gynllunio gweithgareddau sy'n briodol i anghenion unigol dysgwyr. |

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n cytuno â chynnwys datblygiad gweithrediad echddygol o fedrau echddygol bras i fedrau echddygol manwl o fewn Camau ABC y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

| **Anghytuno'n gryf** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Cytuno'n gryf** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb:**

| |
|---|
| Mae cynnwys datblygiad gweithrediad echddygol o fedrau echddygol bras i fedrau echddygol manwl yn y dogfennau hyn yn fuddiol ac yn adlewyrchiad cywir o |

| |
|---|
| gamau cynnydd yn ystod y cam dysgu hwn. Mae'r medrau hyn yn ategu datblygu llawer o gamau trwy gydol y dogfennau hyn a dylid eu hystyried ar draws y cwricwlwm. I lawer o ddysgwyr, gall datblygu'r medrau hyn ohirio datblygu medrau pellach. Er enghraifft, gall oedi o ran caffael medrau echddygol bras effeithio ar ddatblygu medrau ysgrifennu. Yn ogystal â hyn, efallai bod anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gan lawer o ddysgwyr a fydd yn cael eu hasesu ar y Camau ABC. I'r dysgwyr hyn, gallai darpariaeth arbenigol, fel therapi galwedigaethol, fod ar waith i gefnogi eu datblygiad. Bydd cynnwys medrau echddygol yn y camau hyn yn cefnogi gweithio agos rhwng athrawon dosbarth a staff arbenigol ar gyfer datblygiad cyfannol medrau dysgwyr. |

**Cwestiwn 6 –** Mae rhai dysgwyr yn datblygu dulliau amgen ar gyfer llawysgrifen o ganlyniad i anawsterau synhwyraidd corfforol. A ddylid ychwanegu elfen ychwanegol at elfen Ysgrifennu'r Fframwaith Llythrennedd i gydnabod datblygiad a dilyniant y medrau hyn (h.y. llunio testun heb ben ysgrifennu a phensil)?

| Dylid | ✓ | Na ddylid | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Rhowch fanylion, yn esbonio pam:**

| |
|---|
| Credwn y byddai ychwanegu'r elfen hon o ysgrifennu yn fuddiol i ddysgwyr ac ymarferwyr, fel ei gilydd. Efallai na fydd rhai dysgwyr byth yn gallu datblygu'r medrau i ysgrifennu â phensil, fodd bynnag, efallai y byddant yn gallu caffael medrau sy'n eu galluogi i ysgrifennu'n rhwydd trwy ddulliau eraill, er enghraifft teipio. Bydd ychwanegu'r medrau hyn yn sicrhau bod athrawon yn ystyried nad oes angen i anawsterau synhwyraidd corfforol fod yn rhwystr rhag datblygu medrau ysgrifennu da. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhoi ffyrdd i ymarferwyr fonitro datblygiad y medrau hyn yn unol â'u grŵp cymheiriaid (gan ei bod yn bwysig nodi efallai nad oes anabledd dysgu gan rai disgyblion sydd ag anawsterau synhwyraidd corfforol). |

**Cwestiwn 7 –** A oes yna unrhyw ddatganiadau ynghylch Camau ABC sy'n rhy fanwl neu ddim yn ddigon manwl, yn eich barn chi? Rhowch fanylion yn esbonio pam.

| |
|---|
| Teimlwn fod y camau yn y dogfennau hyn yn gyson, yn gywir ac yn cynnwys manylion priodol. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r ddealltwriaeth ehangach o'r camau hyn trwy ychwanegu enghreifftiau a geirfa o dermau allweddol. Er enghraifft, byddai geirfa o dermau allweddol i esbonio rhai ymadroddion fel 'vestibular' neu 'proprioceptive' yn sicrhau dealltwriaeth dda ar gyfer yr holl |

| |
|---|
| ddarllenwyr. Hefyd, gellid cryfhau rhai camau trwy ychwanegu enghreifftiau i gynorthwyo dealltwriaeth, fel camau llythrennedd, strategaethau darllen, camau B, 'gwahaniaethu rhwng cynrychiolaeth symbolaidd'. Neu o fewn cymhwysedd digidol, data a llythrennedd gwybodaeth, Cam B, 'Rwy'n gallu deall y gall un eitem gael ei chynrychioli gan ddull arall'. Gallai dangos enghreifftiau wneud y ddogfen a'r arweiniad yn fwy hygyrch i bawb, yn cynnwys rhieni a staff cymorth. |

**Cwestiwn 8 –** Pa ddeunyddiau cymorth pellach fyddai'n fuddiol?

| |
|---|
| Teimlwn y byddai'r deunyddiau cymorth y soniwyd amdanynt eisoes yng Nghwestiwn 7 yn fuddiol. Yn ychwanegol, byddai arweiniad pellach, fel arweiniad ar astudiaethau achos penodol ar weithredu'r camau hyn yn y cwricwlwm ehangach yn fuddiol, yn enwedig ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. |

**Cwestiwn 9 –** Efallai bydd dysgwyr yn treulio cryn dipyn o'u hamser yn dysgu o fewn Camau A/B/C. A yw'r Camau ABC diwygiedig yn dangos y dysgu sydd ei angen i gefnogi dilyniant?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Rhowch fwy o fanylion:**

| |
|---|
| Mae'r Camau ABC hyn yn dangos y medrau sydd eu hangen i wneud cynnydd ar draws meysydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r camau hyn yn glir, yn gyson ac yn dangos sut beth yw cynnydd yn y meysydd hyn. Hefyd, maent yn dangos bod cynnydd yn digwydd ar hyd continwwm. Mae'r camau yn y ddogfen yn darparu arweiniad addas ar gyfer y dysgu, sy'n ofynnol i gefnogi dilyniant. Teimlwn ei bod yn gadarnhaol nad yw'r arweiniad yn rhy ragnodol a'i fod yn galluogi ymarferwyr i wneud penderfyniadau wedi eu seilio ar anghenion dysgwyr. |

**Cwestiwn 10** – Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Camau ABC diwygiedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Cyfyngedig yw'r cyfeiriadau at y Gymraeg yn y dogfennau hyn. Gellid cryfhau'r dogfennau hyn trwy ychwanegu astudiaethau achos pellach yn dangos sut gellid defnyddio'r camau ABC hyn ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, byddai'n fuddiol cynnwys astudiaethau achos am y modd y caiff medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol eu datblygu trwy ddarparu dysgu Cymraeg ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Yn ogystal â hyn, mae'r enghreifftiau sydd wedi eu cynnwys yn y dogfennau Cymraeg yn gyfieithiadau o enghreifftiau Saesneg. O ganlyniad, nid yw'r dogfennau Cymraeg yn rhoi ystyriaeth ddigon da i'r heriau penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Nid ydynt yn ystyried awgrymiadau o gaffael y Gymraeg, wedi eu hamlygu yn ein hadroddiad thematig 'Caffael yr iaith Gymraeg'. Nid ydynt yn darparu arweiniad digonol ar gyfer ymarferwyr i werthuso medrau a datblygiad dwyieithog cynnar dysgwyr nac yn ystyried yn ddigon da sut mae plant ifanc yn aml yn cyfathrebu trwy blethu'r ddwy iaith. Mae'r dogfennau'n canolbwyntio ar sut mae dysgwyr mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru yn datblygu eu medrau **Saesneg**. Byddai'r dogfennau hyn yn cael eu cryfhau trwy gaffael a datblygu medrau **Cymraeg** dysgwyr sy'n mynychu lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Hefyd, byddai'r dogfennau Cymraeg yn elwa ar gael eu prawfddarllen yn drylwyr, gan eu bod yn cynnwys camgymeriadau gramadegol, e.e. Llythrennedd "Cyfleu dewis i **oedloyn** sylwgar [37]"

**Cwestiwn 11** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y Camau ABC diwygiedig er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Gweler yr ymateb i gwestiwn 10.

**Cwestiwn 12** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.

Gallai fod yna fân gamgymeriad yn y ddogfen fframwaith llythrennedd.  Yn yr adran yn dwyn y teitl ‘listening as part of collaborative talk’, Camau A, dywed y ddogfen, ‘I can show they understand a small number of words/signs for familiar objects or people.’ Yn y frawddeg hon, dylid rhoi ‘I’ yn lle ‘they’.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐